

Gwybodaeth i ddynion sydd wedi cael rhyw gyda dynion



gwaedcymru.org.uk

0800 252266

GGC Cyf: 048C Fersiwn 5 11/17

Dilynwch ni



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth
GIG Felindre
Velindre NHS Trust

Pam ein bod yn gofyn i ddynion sydd wedi cael rhyw gyda dynion beidio â rhoi gwaed am o leiaf 3 mis

Sicrhau diogelwch y cyflenwad gwaed yw ein prif flaenoriaeth. Dilynw'n reolau a rheoliadau llym wrth gasglu a phrosesu gwaed i sicrhau ein bod yn cyflenwi'r gwaed mwyaf diogel posibl.

Defnyddiwn ddwy brif strategaeth i gadw'r broses o roi gwaed mor ddiogel â phosibl.

- Dethol rhoddwyr 'diogel'
- Profi pob rhodd

Mae dethol rhoddwyr 'diogel' yn golygu bod yn rhaid i ni ofyn i rai pobl beidio â rhoi gwaed. Mae hyn yn cynnwys pob dyn sydd wedi cael rhyw gyda dynion eraill yn y 3 mis diwethaf.

Pam bod y cyfnod atal yn para 3 mis

Rydym yn profi pob rhodd gwaed am HIV, hepatitis B (HBV), C (HCV), E (HEV), sifffilis a HTLV. Fodd bynnag, nid yw unrhyw broses profi yn berffaith ac mae'n bosibl y gallwn fethu rhoddion gwaed heintiedig oherwydd y 'bwlch amser' rhwng cael haint a'r prawf sy'n dangos canlyniad cadarnhaol.

Dengys tystiolaeth fod dynion sy'n cael rhyw gyda dynion eraill yn parhau i wynebu risg ystadegol uwch fel grŵp o gael feirysau a gludir yn y gwaed fel HIV, HBV a chlefydau eraill a drosglwyddir drwy ryw.

Oherwydd natur haint HBV mae angen caniatáu cyfnod o 3 mis o leiaf ers unrhyw weithgarwch risg uchel cyn derbyn rhodd gwaed.

Egwyddorion dethol rhoddwyr

Mae dros 450 o reolau ynghylch dethol rhoddwyr ac mae nifer o grwpiau o bobl y gofynnwn iddynt beidio â rhoi gwaed naill ai am gyfnod byr neu am byth.

Gallai rhai pobl yn y grwpiau hyn fod â risg isel iawn o gario heintiau yn y gwaed ac mae'n debyg y byddai eu gwaed yn ddiogel i'w roi i gleifion, ond mae'n fwy diogel gofyn i bawb sydd yn y grwpiau a nodwyd beidio â rhoi gwaed.

Gall hwn arwain at siom a rhwystredigaeth i rai pobl sy'n dymuno rhoi gwaed. Mae ein penderfyniadau'n seiliedig ar wybodaeth ac ymchwil i'r effeithiau a gaiff ein polisïau ar sicrhau'r cyflenwad gwaed mwyaf diogel posibl, nid am ein bod am wahaniaethu yn erbyn unrhyw grŵp penodol.

Cadw ein rheolau'n syml

Mae'r rheol ynghylch dynion sydd wedi cael rhyw gyda dynion yn glir ac yn syml. Gallwch chi benderfynu a yw'n gymwys i chi heb fod angen i chi drafod eich bywyd personol gyda'n staff. Mae'r rheol yn seiliedig ar asesiad diduedd o dystiolaeth sydd ar gael. Gofynnwn i chi ei dilyn er diogelwch y gwaed.

Rhagor o wybodaeth

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth ewch i'n gwefan **www.gwaedcymru.org.uk** i weld ein Datganiad Sefyllfa ynghyd â Chwestiynau ac Atebion manwl, neu ysgrifennwch at:

**Y Cyfarwyddwr Meddygol, Gwasanaeth Gwaed Cymru,
Heol Cwm Elái, Tonysguboriau, Pontyclun CF72 9WB**



Gwasanaeth Gwaed Cymru
0800 252266
gwaedcymru.org.uk